# Tyfu ar gyfer twf

### E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – Tymor y gwanwyn 2026.

Croeso i'n E-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth?

**Adroddiad arbennig: Gwobrau Lantra Cymru 2025**




Cynhaliwyd seremoni wobrwyo Lantra Cymru rhif 31 ddydd Iau 15 Ionawr. Unwaith eto, cynhaliodd Gwesty'r Metropole yn Llandrindod y noson a oedd yn dathlu cyflawniadau pobl ar draws y sector tir. I ddathlu'r sector, mae Lantra Cymru, gyda chymorth Cyswllt Ffermio, yn cynnal y seremoni wobrwyo flynyddol unigryw hon.
Agorodd **Huw Irranca-Davies AS,** Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig y noson gan longyfarch pawb a enwebwyd ar gyfer Gwobr Lantra Cymru, gan ddweud eu bod wedi dangos y dalent, ymroddiad a'r uchelgais eithriadol sy'n bodoli ar draws y sectorau tir yng Nghymru. "Mae safon enwebeion eleni yn dangos yn glir fod dyfodol amaethyddiaeth Cymru mewn dwylo diogel, ac rwy'n arbennig o falch bod nid yn unig amaeth, ond hefyd coedwigaeth a garddwriaeth yn feysydd twf lle mae cymorth Cyswllt Ffermio a Lantra Cymru yn amlwg yn dwyn ffrwyth ac yn cyfrannu'n sylweddol at leihau newid hinsawdd."



Mae Gwobr Garddwriaeth Cyswllt Ffermio yn cydnabod yr ymrwymiad a wneir i hyfforddiant garddwriaeth parhaus a datblygiad proffesiynol parhaus yn y diwydiant garddwriaeth yng Nghymru. Enillydd y wobr eleni oedd **Naomi Hope o Lysiau Cwm Nyfer** (Nevern Valley Veg). Mae Naomi a'i phartner Richard yn berchen ar ardd farchnad deg erw a safle cadwraeth yng ngogledd Sir Benfro. Gan arbenigo mewn tyfu llysiau, perlysiau a blodau, mae'r pâr yn defnyddio dull trin y trin cyn lleied â phosibl, gan osgoi defnyddio chwynladdwyr neu blaladdwyr. Dros y tair blynedd diwethaf maen nhw wedi plannu dros 1,000 o goed a gwrychoedd newydd, wedi creu dolydd blodau gwyllt, pyllau bywyd gwyllt a chynefin ar gyfer y dylluan wen tra hefyd yn cynnal tair erw o goetir gwern gwlyb. Drwy dyfu llysiau a pherlysiau yn fasnachol wedi'u gwasgaru â gwelyau blodau, tomennydd compost, pyllau a glannau ar gyfer chwilod, maen nhw wedi creu cartref i beillwyr o fewn amgylchedd ecolegol cynaliadwy.

"Mae eu ffocws ar ddatblygiad proffesiynol parhaus, eu hymrwymiad i reoli tir yn gynaliadwy ac ymgysylltu'n weithredol â'u cymuned leol, yn eu gwneud yn enillwyr teilwng y wobr hon."

Am restr lawn o enillwyr eraill y noson, dilynwch y ddolen yma.

**Marchnadoedd Organig ar eu huchaf erioed**

Mae ystadegau o'r DU ac Ewrop yn tynnu sylw at gryfhau'r sector cynnyrch organig. Mae gwerthwr bocsys llysiau organig Riverford wedi cofnodi eu ffyniant mwyaf mewn dau ddegawd, gyda gwerthiannau wedi cynyddu 6% yn y flwyddyn hyd at fis Mai 2025. Yn ddiweddar, mae Cymdeithas y Pridd wedi cofnodi bod marchnad bwyd a diod organig y DU wedi tyfu bron i 9%.
Er bod marchnad organig y DU yn cynrychioli 2% o werthiannau bwyd y DU, mae'r duedd yn dangos bod y galw am gynnyrch yn cynyddu, ac mae'r duedd hon yn cael ei hadlewyrchu yn Ewrop ac o gwmpas y byd, lle cynyddodd gwerthiannau manwerthu byd-eang bwyd a diod organig i 145 biliwn ewro yn 2024, gan danlinellu galw gwydn gan ddefnyddwyr ar draws marchnadoedd mawr. Ar yr un pryd, arhosodd yr ardal ffermio organig fyd-eang yn agos at 99 miliwn hectar, gan ddarparu parhad yn y sylfaen gynhyrchu. Darllenwch fwy am y galw am gynnyrch organig yn fyd-eang gan Sefydliad Ymchwil Amaethyddiaeth Organig FiBL ac IFOAM yma.

*Ydych chi'n ystyried trosi i gynhyrchu organig? Mae cymorth ar gael drwy e-bostio Tîm Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ar horticulture@lantra.co.uk.*

# Diweddaru eich gwybodaeth

**Lansio rhwydwaith tyfwyr newydd**

Yn ddiweddar, mae Tîm Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi lansio rhwydwaith tyfwyr newydd sy'n canolbwyntio ar gyfryngau tyfu. Wrth i'r diwydiant garddwriaeth drawsnewid i fod yn ddi-fawn, mae ystod eang o gyfryngau tyfu amgen ar gael bellach. Mae rheoli cyfryngau tyfu wedi dod yn fwyfwy cymhleth wrth i gynhyrchion amrywio o ran proffiliau maetholion, galluoedd dal dŵr, bylchau aer, a lefelau pH—sydd i gyd yn effeithio ar ddatblygiad gwreiddiau, amsugno maetholion, ac iechyd y planhigion yn gyffredinol. Nod **Rhwydwaith Cyfryngau Tyfu** yw cael cipolwg ar briodweddau cyfryngau tyfu, gan helpu tyfwyr i fireinio systemau dyfrhau, bwydo, a rheolaethau amgylcheddol, gan helpu cnydau i ffynnu a lleihau colledion neu rwystrau costus.

Bydd tyfwyr sy'n cofrestru ar gyfer y rhwydwaith yn cael mynediad i:

- 2 sampl o gyfryngau tyfu i'w dadansoddi gan labordy a darparu canlyniadau ar pH, EC, maetholion a phriodweddau ffisegol y cyfryngau tyfu
- Adnoddau ar dechnegau samplu
- Hyfforddiant ar ddefnyddio mesurydd EC yn effeithiol

*Os hoffech chi fynegi diddordeb mewn ymuno â'r rhwydwaith, anfonwch e-bost at horticulture@lantra.co.uk*

# Prosiect Garddwriaeth

**Cyflawniadau Garddwriaeth Cyswllt Ffermio**

Mae cymorth garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio yn esblygu gyda cham nesaf y rhaglen. Bydd Tîm Cyswllt Ffermio yn parhau i gynorthwyo mentrau garddwriaeth, ond cyn i'r rhaglen newydd ddechrau, rydym am amlinellu ein cyflawniadau ar gyfer sector garddwriaeth Cymru dros y tair blynedd diwethaf:



- Digwyddiadau Hyfforddiant – rydym wedi cynnal **132 o ddigwyddiadau hyfforddiant garddwriaeth**, gyda dros **1200 o bobl** yn cael hyfforddiant arbenigol yn y digwyddiadau hyn
- **607 o sesiynau cymorth busnes garddwriaethol un i un**, gan ddarparu cyngor wedi'i deilwra i dros 241 o fusnesau yng Nghymru.
- **20 Rhwydwaith Tyfwyr wedi'u sefydlu**, gan alluogi i wybodaeth gael ei chyfnewid rhwng cyfoedion i 635 o aelodau
- Mae gwaith rhaglen Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi cyfrannu at **gynnydd o 20% yn y defnydd o dir ar gyfer garddwriaeth** ers 2022.
- Rhai o uchafbwyntiau'r rhaglen:
    - Safon Cyflenwyr Tyfwyr Bach - Safon diogelwch bwyd a ddatblygwyd ar gyfer garddwyr marchnad ar raddfa fach mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Technegol ML3 i gyflenwi cynnyrch i brosiectau fel Llysiau Cymru mewn Ysgolion.
    - Rhwydwaith Cyfryngau Tyfu – 12 busnes addurniadol yn cael hyfforddiant, dadansoddiad labordy a thechnoleg newydd i helpu gyda'r newid i fod yn ddi-fawn.
    - Cwrs Cynhyrchu Llysiau ar Raddfa Uwch dros 4 diwrnod - Mae'r rhaglen wedi rhoi canllawiau ymarferol i 35 o Dyfwyr mewn 2 Garfan ar ehangu cynhyrchiant, gwella effeithlonrwydd y busnes, a chael mynediad at farchnadoedd newydd, gan helpu tyfwyr i droi cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg yn dwf cynaliadwy.

Rydym yn hynod falch o'r effaith y mae cymorth Garddwriaeth Cyswllt Ffermio wedi'i gael ar y diwydiant hyd yn hyn, ac edrychwn ymlaen at barhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn yn y flwyddyn i ddod!

*Am ragor o wybodaeth am y cymorth y gallwn ei darparu i'ch busnes drwy Cyswllt Ffermio, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar 03456 000 813.*

# Beth sydd ymlaen?

Rhaglen newydd, digwyddiadau newydd! Cadwch lygad ar ein rhestr digwyddiadau yma, wrth i ni baratoi ar gyfer rhaglen gyffrous newydd o weithgareddau.

- **23/3/26 -** Lluosogi Planhigion ar gyfer Gerddi Marchnad – gweithdy ar fferm Bremenda Isaf gydag Iain Tolhurst
- **24/3/26 -** Y Bwlch Cnydau a Chylchdroi mewn Twneli – gweithdy ar fferm Bremenda Isaf gydag Iain Tolhurst

# Ymwadiad

*Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn llwyr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y*

*label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr neu bryfed llesol. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn sicrhau, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.*